**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar GEN–LD8406 – Cynnig Cyllideb Atodol 2010–11 (08 Chwefror 2011)

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar GEN–LD8406 – Cynnig Cyllideb Atodol 2010–11 (08 Chwefror 2011)

Mawrth 2011

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

Bu'r Aelod a ganlyn yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid fel eilydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

## Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 27 yn datgan:

> 27.23 Ni chaniateir i gynnig cyllideb atodol a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 27.21 gael ei wneud naill ai:
>
> (i) nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig; neu
>
> (ii) nes bod tair wythnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, os nad yw'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig.
>
> 27.24 Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyllid argymell newidiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu neu'n gostwng cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol.

2. Gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru y cynnig cyllideb atodol hwn ddydd Mawrth 8 Chwefror 2011. Felly, y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad arno yw dydd Mawrth 1 Mawrth 2011.

3. Cyflwynodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, y gyllideb atodol i'r Pwyllgor Cyllid ac ateb cwestiynau arni, yn ystod ei gyfarfod ar 14 Chwefror. Yn bresennol gyda'r Gweinidog oedd ei swyddogion: Andrew Jeffreys, Pennaeth Cyllidebu Strategol, a Matthew Denham-Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau Ariannol.

4. I gefnogi adrannau o'r gyllideb atodol sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru, cafodd y Pwyllgor Cyllid hefyd y wybodaeth a ganlyn: ar 29 Ionawr 2011[1] gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac ar 31 Ionawr 2011[2] gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad.

---

[1] Y Pwyllgor Cyllid, FIN(3)-04-11(p6), *Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol 2010-11*, 14 Chwefror 2011

[2] Y Pwyllgor Cyllid, FIN(3)-04-11(p2), *Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2010-11*, 14 Chwefror 2011

## Newidiadau a gynigir yn y cynnig cyllideb atodol

5. Mae'r nodyn esboniadol i'r gyllideb atodol yn dweud mai newidiadau gweinyddol ydynt ar y cyfan a'u bod yn adlewyrchu ail-flaenoriaethu o fewn portffolios a nifer o drosglwyddiadau o fewn y gyllideb rhwng portffolios. Mae'n rhoi ar waith benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu yn 2010-11 y gostyngiad llawn o £162.5 miliwn a osodwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2010. Mae hefyd yn rhoi manylion am nifer o ddyraniadau ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn sydd, yn eu tro, wedi eu hategu gan adnoddau o'r stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Mae'r dyraniadau'n cynnwys symiau o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

6. Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn cynnwys trosglwyddiad o £1.6 miliwn o Derfyn Gwariant Adrannol refeniw Comisiwn y Cynulliad i'w Derfyn Gwariant Adrannol cyfalaf. Mae hefyd yn cynnwys amrywiad o £21,000 mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid yw'r naill newid hwn na'r llall yn golygu unrhyw newid net i'r gwariant.

## Sylwadau

7. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y gyllideb atodol yn dyrannu £298 miliwn ychwanegol i derfyn gwariant adrannol Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'r Nodyn Esboniadol yn datgan mai newidiadau gweinyddol eu natur ydynt ar y cyfan. Mae'r gyllideb atodol hefyd yn rhoi ar waith benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgwyddo'r gostyngiadau refeniw llawn o £113.5 miliwn eleni. Yn flaenorol, roedd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2011-12 wedi nodi mai dim ond 50 y cant o'r arbedion fyddai'n cael eu gwneud yn 2010-11. Mae dod o hyd i'r arbedion refeniw cyfan eleni yn golygu y bydd £56.8 miliwn ychwanegol ar gael yn 2011-12.

8. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y gyllideb atodol yn cynnwys tynnu swm o £227 miliwn i lawr o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, o ganlyniad i'r gyllideb atodol hon, mai cyfanswm yr arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn fyddai £385 miliwn, sy'n cynnwys £1 miliwn o arian cyfalaf, £163 miliwn o arian refeniw sydd bron yn arian parod a £221 miliwn o arian refeniw sydd heb fod yn arian parod. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hysbysu'r Cynulliad ynghylch lefelau'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a gollwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2010-11.**

9. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb na fyddai'r £385 miliwn o'r arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn sy'n weddill ar gael mwyach i Lywodraeth Cynulliad Cymru, os yw'r bwriad arfaethedig i gael gwared ar Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn cael ei wireddu. Mae'r Gweinidog yn parhau i ohebu â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ac yn bwriadu ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys, ar y cyd â Gweinidogion perthnasol y llywodraethau datganoledig, yn galw am wyrdroi'r penderfyniad i gael gwared ar stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.

10. Mae'r sefyllfa ynghylch dwyn ymlaen tanwariant yn y dyfodol yn aneglur ar hyn o bryd. Yn 2010-11, roedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gorfod rhoi gwybod i'r Trysorlys ynghylch unrhyw danwariant posibl erbyn diwedd mis Ionawr, sef dau fis cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor Cyllid fod neges glir iawn wedi dod o'r Trysorlys na fyddai unrhyw danwariant sy'n weddill yn cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf. **Mae'r**

**Pwyllgor Cyllid wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gofyn iddo roi rhagor o eglurder i Lywodraeth Cymru ar frys ynghylch y trefniadau newydd ar gyfer trosglwyddo arian o un flwyddyn i'r llall, er mwyn galluogi cynllunio ariannol darbodus ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.**

11. Mewn perthynas â'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2010-11, mae'r gyllideb atodol yn cynnig gostwng y refeniw wrth gefn sydd bron yn arian parod o £161.9 miliwn i ddim, a gostwng y cyfalaf wrth gefn o £27.8 miliwn i ddim. Cynyddodd yr arian wrth gefn nad yw'n arian parod o ddim i £0.2 miliwn. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wrth y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwario gymaint o gyllideb eleni â phosibl.

12. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i wario ei chyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol drwy reoli ariannol darbodus. Fodd bynnag, mae natur anrhagweladwy prosiectau cyfalaf a'u gwariant cysylltiedig yn ei gwneud yn neilltuol o anodd i'r gweinyddiaethau datganoledig wario'u cyllidebau llawn mewn blwyddyn. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i bwyso i gael eglurder ynghylch sut y bydd y drefn newydd yn cael ei rhoi ar waith. Bydd yn rhaid i'r gyfundrefn newydd gydnabod bod rhyw fath o danwariant yn anochel.**

13. Felly, nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig gael eu trin fel pe baent yn adrannau o Lywodraeth y DU o ran trefniadau'r dyfodol o ddwyn ymlaen tanwariant o un flwyddyn ariannol i'r llall.

14. Yr elfen fwyaf o'r dyraniadau ychwanegol yn y gyllideb atodol yw cynnydd o £147.7 miliwn ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dyraniad o £110 miliwn ar gyfer cefnogi pwysau afreolaidd ar sefydliadau'r GIG. Nododd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb fod y dyraniad hwn yn ganlyniad i'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd, a waethygwyd gan y tywydd drwg, a gellir eu dyrannu i bob rhan o'r gwasanaeth – o ddarpariaethau rheng flaen y GIG i gydnabod yr effaith ar oedi wrth drosglwyddo gofal a gwasanaethau brys.

15. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y gyllideb atodol yn cynnwys dyraniad o £10 miliwn o'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth i'r arian cyfalaf wrth gefn o £10 miliwn. Roedd hyn mewn perthynas ag ad-

daliad o £97 miliwn a ddyrannwyd o'r cronfeydd wrth gefn i'r portffolio Economi a Thrafnidiaeth mewn perthynas â benthyciadau Cyllid Cymru a roddwyd ar y fantolen yn y gyllideb atodol ar gyfer 2009-10 ym mis Chwefror 2010. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wrth y Pwyllgor Cyllid fod disgwyl i'r cyfan o'r £97 miliwn hwn gael ei ad-dalu erbyn mis Mawrth 2017.

16. Mae'r gyllideb atodol yn rhoi manylion am drosglwyddo cyfanswm o £5.9 miliwn o arian refeniw i arian cyfalaf: £1.2 miliwn ym mhortffolio yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; £0.7 miliwn yn y portffolio Treftadaeth; a £4 miliwn mewn Gwasanaethu Canolog a Gweinyddu. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wrth y Pwyllgor Cyllid fod rhan o hyn yn ganlyniad i ail-ddosbarthu gwariant, a bod £2.5 miliwn o'r ffigur ar gyfer Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn gysylltiedig â dodrefn a llety. **Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn i'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y £2.5 miliwn a drosglwyddwyd o arian refeniw i arian cyfalaf o fewn y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**.

17. O'r £162.5 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb a osodwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2010, sicrhawyd arbedion cyfalaf o £49 miliwn drwy dynnu i lawr o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Mewn perthynas â'r £113.5 miliwn o arbedion refeniw, sicrhawyd gostyngiadau o'r holl bortffolios, ar wahân i Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, gan dynnu i lawr £71.5 miliwn o'r arian sydd bron yn arian parod o hyblygrwydd diwedd blwyddyn ac ychydig dros £15 miliwn o'r refeniw wrth gefn. Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys ychwanegiad o £6.4 miliwn i'r refeniw wrth gefn o'r portffolio Materion Gwledig mewn perthynas ag incwm ffermydd gwynt a gwariant gostyngol ar y rhaglen gwaredu TB mewn gwartheg. **Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn am nodyn gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig sy'n rhoi eglurhad o ble y daethpwyd o hyd i'r gostyngiad yn y dyraniadau, a ble sicrhawyd y gostyngiad, yn wyneb tystiolaeth flaenorol i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig fod y rhaglen gwaredu TB wedi gorwario'n gyson mewn blynyddoedd blaenorol.**

18. Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £70.1 miliwn i brosiectau'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn y portffolios Treftadaeth a'r Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn esbonio bod £37 miliwn wedi ei ddyrannu i brosiectau gwella rheilffyrdd o fewn y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol, ond fod y prosiectau hynny wedi'u gohirio tan y dyfodol oherwydd oedi anorfod.

Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn bellach wedi'i ddyrannu i'r Adran Economi a Thrafnidiaeth i'w ddefnyddio ar brosiectau eraill ac wedi'i rannu ymysg nifer o brosiectau cyfalaf sy'n gysylltiedig ar y cyfan â chynnal a chadw a gwella ffyrdd. Nodir y bydd y prosiectau rheilffyrdd yr oedd y cyllid hwn wedi'u neilltuo ar eu cyfer yn cael eu hariannu yn y dyfodol o ddyraniadau cyfalaf Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. **Roedd y Pwyllgor Cyllid yn bryderus bod hyn yn wahanol i'r arfer blaenorol, sef os na fyddai prosiectau'n digwydd y byddai arian y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn cael ei gadw'n ganolog ar gyfer ei ail-ddyrannu yn erbyn meini prawf y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol.**

19. Cytunodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i roi manylion i'r Pwyllgor Cyllid am y symiau o fewn y £37 miliwn a ail-ddyrannwyd o brosiectau gwella rheilffyrdd y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol sy'n mynd i brosiectau sydd naill ai wedi gorwario neu sydd ar ei hôl hi yn y rhaglen yn ogystal â'r symiau sy'n mynd i brosiectau newydd.

20. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb am y darpariaethau Cymreig yn Neddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, sut y maent yn debygol o effeithio ar broses y gyllideb yn y dyfodol a phryd maent yn debygol o gychwyn.

## Casgliadau

21. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cynnig Cyllideb Atodol ac esboniadau Llywodraeth Cymru yn eu cylch. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bryderus ynghylch y cynnig posibl i gael gwared ar y cronfeydd Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ac nad oes system glir mewn grym yn lle'r system hon. Mae'n rhaid i'r gyfundrefn newydd gydnabod bod rhyw fath o danwariant yn anochel.

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn am wybodaeth bellach mewn perthynas â rhai agweddau ar y gyllideb, ond nid yw'n argymell unrhyw newidiadau i'r symiau a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol.

**Angela Burns, AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**